OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 690 (Cy. 55)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 22 (Hen Golwyn) i Gyffordd 23 (Llanddulas), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Mawrth 2015* |
| *Yn dod i rym* | *15 Mawrth 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Mawrth 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 22 (Hen Golwyn) i Gyffordd 23 (Llanddulas), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 15 Mawrth 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd rhwng Cyffordd 22 (Hen Golwyn) a Chyffordd 23 (Llanddulas) ym Mwrdeistref Sirol Conwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedlo na pheri i unrhyw feic pedlo gael ei reidio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**Atal Dros Dro**

**7.** Mae darpariaethau Rheoliad 13, paragraffau (1) a (2) o Reoliadau Ffordd Arbennig (Llanddulas i Fae Colwyn) 1984**(3)** wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny y mae'r gwaharddiad a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**8.** Mae darpariaethau Rheoliad 13(1) a (2) o Reoliadau Ffordd Arbennig (Bae Colwyn i Lansanffraid Glan Conwy) 1985**(4)** wedi eu hatal dros dro mewn perthynas â'r darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod y adegau hynny y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**9.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 and 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae'r arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 9 Mawrth 2015

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1984/1719
**(4)** O.S. 1985/824

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd cerbydau, beicwyr a cherddwyr dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 250 o fetrau i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 22 (Hen Golwyn) i ganolbwynt Cyffordd 23 (Llanddulas).

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd 22 (Hen Golwyn).

### ATODLEN 2
### Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.6 cilometr i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 22 (Hen Golwyn) i bwynt 500 metr i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23 (Llanddulas).